Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Nawdd ar gyfer Rhaglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant

## Beth rydych chi'n feddwl ynglŷn â'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol?



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth Cymru**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **Ymgynghoriad ar Nawdd i Raglen Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar gyfer y Dyfodol.**

**15 Chwefror 2021**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall, ond efallai y byddwch angen cymorth i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n eu hadnabod i'ch helpu chi.



Efallai bod y geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn anodd eu deall. Mae beth maen nhw'n feddwl wedi'i roi mewn blwch o dan y gair.




Os ydy'r gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto, mae mewn ysgrifen glas normal. Rydych chi'n gallu edrych i weld beth mae'r holl eiriau mewn glas yn feddwl ar **dudalen 14**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. Am ragor o wyboaeth cysylltwch gyda:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cyfeiriad:** Tîm Cydraddoldeb,
Llywodraeth Cymru
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**E-bost:** EandIFutureFundingConsultation@gov.wales




**Anfonwch eich atebion yn ôl erbyn 16 Ebrill 2021.**

Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Cynnwys

**Tudalen**

**Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon........................................2**

**Cyflwyniad........................................4**

**Ble rydyn ni'n awr........................................7**

**Newidiadau sy'n effeithio ar y Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant........................................8**

**Y pethau rydyn ni'n meddwl y dylen ni eu gwneud nesaf........................................10**

**Geiriau anodd........................................14**

# Cyflwyniad




Yn 2016, cyflwynodd Llywodraeth Cymru **Raglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant**.

Mae **cydraddoldeb** yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

Mae **cynhwysiant** yn meddwl y gall pawb gymryd rhan, ac y gall pawb gael cyfle teg.

Mae **Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant** yn gynllun i wneud yn siŵr bod pawb yng Nghymru yn cael ei drin yn deg ac yn cael yr un cyfleoedd.



Y bobl sydd fwyaf tebygol o gael eu trin yn annheg yw:

- Pobl anabl



- Pobl sydd yn Ddu, yn Asiaidd ac sydd o **grwpiau lleiafrifoedd ethnig**

Mae **grwpiau lleiafrifoedd ethnig** yn grwpiau o bobl sydd yn rhannu gwahanol hil, lliw croen, crefydd neu ddiwylliant.



- **Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Mae **Sipsiwn, Roma a Theithwyr** yn grwpiau o bobl sy'n aml yn teithio o gwmpas a ddim yn byw mewn un lle.



- **Ffoaduriaid a cheiswyr lloches**

Mae **ffoaduriaid a cheiswyr lloches** yn bobl sydd ddim yn ddiogel yn eu gwlad eu hunain ac sy'n gorfod gadael.



- Pobl sy'n **LGBTQ+**

Mae **LGBTQ+** yn cynnwys pobl sy'n Lesbiaidd, yn Hoyw, yn Ddeurywiol ac yn Drawsrywiol. Hefyd pobl sydd ddim am gael eu galw'n wrywaidd neu'n fenywaidd.




Rydyn ni wedi bod yn rhoi **nawdd** i fudiadau sy'n arbenigwyr mewn cydraddoldeb a chynhwysiant.


Mae **nawdd** yn arian sy'n cael ei roi i fudiad i wneud gwaith arbennig.




Bydd y Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant sydd gennym ar hyn o bryd yn diweddu ar **30 Medi 2021**.




Rydyn ni'n gwybod ei bod hi'n bwysig ein bod yn dal ati i roi nawdd i fudiadau sy'n gweithio ar gyfer cydraddoldeb a chynhwysiant.




Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthych chi am y gwaith rydyn ni wedi'i wneud hyd yma a beth rydyn ni'n meddwl y dylen ni wneud yn y dyfodol.



Mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl.




Gallwch ein helpu trwy lenwi'r Ffurflen Ymateb.



# Ble rydyn ni'n awr


Mae'r Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn rhoi nawdd i:

- **Tîm Cymorth Ieunctid Ethnig (EYST)** – Rhaglen Ymgysylltu Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
- **Stonewall Cymru** – LGBTQ+ Cydraddoldeb yng Nghymru
- **Anabledd Cymru** – Gwthio Hawliau Anabledd Ymlaen yng Nghymru.
- **Rhwydwaith Cydraddoldeb i Fenywod Cymru** – Prosiect Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau Cymru Gyfan
- **TGP (Tros Gynnal Plant) Cymru** – Teithio Ymlaen, yn Cefnogi Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- **Cyngor** Ffoaduriaid **Cymru a'r mudiadau maen nhw'n gweithio gyda nhw** – Rhaglen Hawliau i gael Lloches
- **Cymorth i Ddioddefwyr Cymru** –Canolfan Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth Cymru Gyfan.



Mae **trosedd casineb** yn gamdriniaeth neu'n drais tuag at berson oherwydd ei fod yn wahanol. Er enghraifft: ei anabledd, lliw ei groen neu ei grefydd

# Newidiadau sy'n effeithio ar y Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant




Yn y blynyddoedd diwethaf mae rhai newidiadau wedi bod sydd wedi effeithio ar y Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

Er enghraifft:



- **Brexit**. Rydyn ni wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd sy'n effeithio ar bobl sydd am ddod yma o wledydd eraill.



- Mae Covid-19 wedi effeithio ar fwy o bobl sy'n:



  - Ddu, Asiaidd neu o leiafrifoedd ethnig.



- Anabl.



- Hŷn.



- Mae elusennau sy'n cefnogi cydraddoldeb a chynhwysiant wedi cael eu heffeithio gan newidiadau fel **Brexit** a **Covid-19**. Dydyn nhw ddim wedi medru codi cymaint o arian ag y maen nhw fel arfer.



Mae'r newidiadau hyn wedi dangos i ni pa mor bwysig yw hi i barhau i roi nawdd i gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru.

# Y pethau rydyn ni'n meddwl y dylen ni eu gwneud nesaf



1. Cynllunio sut y byddwn ni'n rhoi nawdd i gydraddoldeb a chynhwysiant yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf.




2. Gwneud yn siŵr bod y mudiadau rydyn ni'n rhoi nawdd iddyn nhw yn rhannu ein gwerthoedd.



   Byddwn yn gofyn iddyn nhw ddangos i ni sut maen nhw'n mynd i gefnogi cydraddoldeb a chynhwysiant.



3. Canolbwyntio ar bethau eraill sy'n gallu effeithio ar y ffordd y mae pobl yn cael eu trin. Er enghraifft:



   - Faint o arian sydd ganddyn nhw.



– Y lle maen nhw'n byw.



– Pa waith maen nhw'n wneud.



Mae hyn yn cael ei alw'n **anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol**.



4. Canolbwyntio ar gefnogi pobl a allai gael eu trin yn annheg am fwy nag un rheswm. Er enghraifft:



– rhywun sy'n ddu **ac** yn anabl neu



– rhywun sy'n hoyw **ac** yn ffoadur.



Efallai y bydd ar wahanol fudiadau angen gweithio'n agos gyda'i gilydd i'w cefnogi.

5. Cadw mudiadau sy'n rhoi nawdd yn gweithio gyda phobl sy'n:



- Ddu, yn Asiaidd ac o leiafrif ethnig.



- Cael eu trin yn annheg oherwydd eu bod yn fenyw neu oherwydd eu bod yn ddyn.



- LGBTQ+.



6. Dal i roi nawdd i rai o'r mudiadau sydd wedi dangos i ni'n barod y gwaith da maen nhw'n wneud. Er enghraifft: **Canolfan Adrodd am Droseddau Casineb a Chymorth Cymru Gyfan**.



7. Gweithio'n fwy agos gyda grŵp arall sy'n cael ei alw'n **Rhaglen Cydlyniant Cymunedol** i roi cefnogaeth i gydraddoldeb a chynhwysiant mewn cymunedau lleol ar draws Cymru.



Mae **Rhaglen Cydlyniant Cymunedol** yn dimau sy'n gweithio mewn cynghorau lleol i gefnogi perthynas dda mewn cymunedau lleol.

# Geiriau anodd

### Cydraddoldeb
Mae cydraddoldeb yn meddwl trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

### Cynhwysiant
Mae cynhwysiant yn meddwl y gall pawb gymryd rhan, ac y gall pawb gael yr un cyfle.

### Ffoaduriaid a cheiswyr lloches
Mae ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn bobl sydd ddim yn ddiogel yn eu gwlad eu hunain ac yn gorfod gadael.

### Grwpiau Lleiafrifoedd Ethnig
Mae grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn grwpiau o bobl sydd yn rhannu gwahanol hil, lliw croen, crefydd neu ddiwylliant.

### LGBTQ+
Mae LGBTQ+ yn cynnwys pobl sy'n Lesbiaidd, yn Hoyw, yn Ddeurywiol ac yn Drawsrywiol. Hefyd pobl sydd ddim am gael eu galw'n wrywaidd neu'n fenywaidd.

### Nawdd
Mae nawdd yn arian sy'n cael ei roi i fudiad i wneud gwaith arbennig.

### Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant
Mae Rhaglen Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn gynllun i wneud yn siŵr bod pawb yng Nghymru yn cael ei drin yn deg ac yn cael yr un cyfleoedd.

## Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mae Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn grwpiau o bobl sy'n aml yn teithio o gwmpas a ddim yn byw yn yr un lle.

## Trosedd casineb

Mae trosedd casineb yn gamdriniaeth neu'n drais tuag at berson oherwydd ei fod yn wahanol. Er enghraifft: ei anabledd, lliw ei groen neu ei grefydd.